

## **POLISI IAITH GYMRAEG CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2010**

Mabwysiadodd Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan Gynllun iaith Gymraeg o dan Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 30 Awst 2007. Mae rhan 6.4 o'r cynllun yn mynnu fod y Cyngor yn derbyn adroddiad blynyddol ar y cynllun, bod y cyhoedd yn cael y cyfle i wneud sylwadau ar yr adroddiad, a bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Penodwyd Cynghorwyr Rob Phillips, Dorothy Williams, Chris Thomas, Selwyn Walters a Chlerc y Dref i Bwyllgor Iaith Gymraeg, i gyflwyno'r adroddiad blynyddol. Nid yw'r adroddiad hwn yn sylwi ar bob pwynt gweithredu yn y cynllun, dim ond y rhai lle mae angen nodi llwyddiant, neu argymell newid ar gyfer y dyfodol.

### **CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETHAU**

Mae'r cyngor wedi parhau i arddangos arwyddion dwyieithog pan fydd arwyddion newydd yn cael eu gosod mewn lle, ac eithrio arwyddioin yn dwyn yr enwau *Clos Glyndŵr & Parc Sant Germain-Sur-Moine*, sydd yn y Gymraeg yn unig. Gosodwyd arwyddion dwyieithog mewn lle, fel rhan o'r Parth Di-Alcohol newydd.

### **YMDRIN Â'R CYHOEDD SYDD YN SIARAD CYMRAEG**

Derbyniodd y cyngor nifer o lythyron ac e-byst yn y Gymraeg, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac fe'u hatebwyd yn y Gymraeg. Mae'r ffaith fod y Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg wedi ei nodi ar bob llythyr yr anfonir.

Roedd llythyron, posterï a gohebiaeth ychwanegol a ddosbarthwyd i drigolion y dref, parthed datblygu Cae Maesyderi yn ddwyieithog eu cynnwys.

Parhaodd y cyngor i ddarparu gwefan dwyieithog â chofnodion y cyngor a gwybodaeth cyson ar gael yn y Saesneg a'r Gymraeg. O ganlyniad i sylwadau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar adroddiad y llynedd, ystyriodd y cyngor brynu URL yn y Gymraeg sef [www.ct-llambed.gov.uk](http://www.ct-llambed.gov.uk), ond penderfynwyd bod y gost yn ormodol. Caiff y penderfyniad ei adolygu ym mhen dwy flynedd.

Mynegodd y clerc bryder nad oes digon o amser i gyfieithu'r holl ddogfennau, yn yr oriau a glustnodwyd ar gyfer cyfieithu, yn wyneb gwaith ychwanegol parthed Cae Maesyderi. Er nad yw'n ofynnol bod holl dogfennau mewnol ar gael yn y ddwy iaith yn ôl y Cynllun Iaith Gymraeg, dylid ymdrechu i ddarparu copiau yn y Gymraeg a'r Saesneg, lle bo hynny'n ymarferol.

### **GWYNEB CYHOEDDUS Y CYNGOR**

Mae papur pennawd, gwefan ac e-bost y Cyngor yn ddwyieithog. Mae neges ar bapur pennawd ac e-byst y Cyngor yn nodi ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r cyngor yn bwriadu cyhoeddi llawlyfr dwyieithog ar gyfer y dref.

Mae'r rhaglen a gyhoeddir gan y Cyngor ar gyfer Sul y Cofio yn ddwyieithog.

Rhoddir ystyriaeth i'r Gymraeg pan yn gwobrwyo grantiau, ac erbyn hyn darperir ffurflen i'w llenwi, ar gyfer ymgeiswyr am gymhorthdal, er mwyn iddynt fedru esbonio sut y maent yn bwriadu adlewyrchu natur ieithyddol yr ardal.

Gwnaethpwyd cyfraniadau sylweddol i Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen, Urdd Gobaith Cymru (yn lleol ac yn genedlaethol) a'r Eisteddfod Genedlaethol, yn ystod y flwyddyn. Yr oedd cynnal Eisteddfod yr Urdd yn Llanerchaeron yn hwb i'r Gymraeg yn yr ardal. Cefnogwyd yr Ŵyl yn ariannol ac yn ymarferol gan y Cyngor. Arddangoswyd baneri o gwmpas y dref, a bu i'r Maer fynychu'r Ŵyl fel un o'r Gwahoddedigion.

Er mwyn medru cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor Tref trwy gyfrwng y Gymraeg, cyflogwyd cyfieithydd ar y pryd. Dyma'r tro cyntaf i gyfleusterau cyfieithu fod ar gael yn ystod cyfarfod o'r fath.

## **GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN**

Argymhellir y dylid rhoi datganiad i'r *Cambrian News* a'r *Carmarthen Journal* a hysbyseb yn y Papur Bro'r *Clonc* i hysbysebu'r Adolygiad Blynyddol a gofyn am sylwadau. Argymhellir gosod copïau ar wefan y Cyngor ac yn Llyfrgell Y Dref. Bydd copïau ar gael oddi wrth y Clerc.

Dylid clustnodi 2 awr ychwanegol i Glerc y Dref ar gyfer gwaith cyfieithu.

**Is-Bwyllgor Iaith Gymraeg**  
**24ain Ionawr 2011**